




# Gwirio ffeithiau am ragolygon y tywydd



# Sut gallwn ni wneud y rhagolygon am y tywydd a'u cyfathrebu nhw?



# Astudiaeth achos: Enwi storm neu beidio?

Roedd rhagolygon y tywydd wedi rhagweld y byddai'n wlyb a gwyntog dros y penwythnos a chyhoeddodd y Swyddfa Dywydd rhybuddion melyn ar gyfer gwynt a glaw yn rhannau o'r DU. Roedd y rhybuddion yma'n tynnu sylw at effeithiau posibl y tywydd, fel y posibilrwydd o darfu ar gludiant neu gyflenwadau pŵer.

Fodd bynnag, yn aml bydd yna lain main rhwng penderfynu a ddylai storm gael ei henwi ai peidio. Y tro hwn, nid oedd y storm wedi bodloni meini prawf y system gwasgedd isel sy'n galluogi storm i gael ei henwi.

Er gwaethaf hyn, cafodd rhai erthyglau newyddion a oedd yn enwi'r storm eu cyhoeddi. Roedd rhai wedi'i henwi'n 'Y Storm a ddaeth o Uffern' ac yn dweud bod 'Prydain ar fin gael ei difetha' gan y storm.

# Astudiaeth achos: Cwis!

1. Pa rybuddion tywydd wnaeth y Swyddfa Dywydd eu cyhoeddi?
2. A oedd y Swyddfa Dywydd wedi enwi'r storm?
3. Pa ffactor oedd wedi dylanwadu ar y penderfyniad i enwi'r storm neu beidio?
4. Sut wnaeth rhai o'r cyfryngau adrodd am y rhagolygon tywydd?
5. Beth allai effeithiau cam-gynrychioli rhagolygon tywydd yn y cyfryngau fod?

# Astudiaeth achos: Cwis! (Atebion)

1. Pa rybuddion tywydd wnaeth y Swyddfa Dywydd eu cyhoeddi?

Gwynt a glaw

2. A oedd y Swyddfa Dywydd wedi enwi'r storm? **Naddo**

3. Pa ffactor oedd wedi dylanwadu ar y penderfyniad i enwi'r storm neu beidio?

Doedd y system gwasgedd isel ddim wedi bodloni'r meini prawf

4. Sut wnaeth rhai o'r cyfryngau adrodd am y rhagolygon tywydd?

'Prydain yn cael ei ddifetha gan...', 'Y storm a ddaeth o uffern'

5. Beth allai effeithiau cam-gynrychioli rhagolygon tywydd yn y cyfryngau fod?

Mae pobl yn derbyn gwybodaeth anghywir a all eu hofni nhw a gwneud iddyn nhw gymryd camau diangen. Gall hyn olygu na fyddan nhw'n credu nac yn gweithredu ar rybuddion tywydd go iawn yn y dyfodol

# Sut mae gwahanol fathau o ffynonellau'n portreadu'r tywydd?



# Crëwch eich adroddiad tywydd eich hun



Rhagor o wybodaeth yma:  
[www.metoffice.gov.uk/schools](http://www.metoffice.gov.uk/schools)

